

Cylchlythyr TGAU Daeryddiaeth, Mai 2019

Croeso'n ôl, gobeithio eich bod wedi cael seibiant dros y Pasg a'ch bod yn barod am y cyfnod paratoi ar gyfer cyfres arholiadau'r haf.

Gwaith maes

Cynllunio eich gwaith maes ar gyfer 2020

Cofiwch fod rhaid cynnal gwaith maes mewn dau leoliad cyferbyniol.

Dull Methodolegol	Fframwaith Cysyniadol
Trawsluniau	Cylch dylanwad

Mae gwefan CBAC yn cynnwys dogfennau i gefnogi eich cynllunio ar gyfer yr Asesiad Di-arholiad yn 2019/20. https://www.wjec.co.uk/qualifications/geography/r-geography-gcse-from-2016/index.html?language_id=2

Mae adnodd defnyddiol iawn i gefnogi gwaith maes ar Hwb hefyd

<https://hwb.gov.wales/repository/resource/fbc1a99b-3778-4006-a6e5-3c62d702c098/cy>

Bydd adborth ar Asesiad Di-arholiad 2019 ar y wefan ym mis Medi. Bydd yr adborth yn rhoi manylion ynglŷn â'r hyn aeth yn dda a sut gellir parhau i wella'r Asesiad Di-arholiad wrth fynd ymlaen. Gellid defnyddio hyn i sicrhau bod eich dysgwyr yn gwbl barod am ofynion yr Asesiad Di-arholiad yn barod at fis Tachwedd.

Arholiadau

Mae papurau arholiad Daeryddiaeth CBAC yn cael eu marcio'n electronig. Ar gyfer unrhyw barhad atebion ar ddiwedd y papur arholiad, sicrhewch fod eich disgyblion yn nodi rhif y cwestiwn yn glir.

Awgrymiadau wrth baratoi disgyblion ar gyfer yr arholiadau

- Canolbwyntiwch ar y geiriau gorchymyn yn y cwestiwn – mae hyn yn helpu i ganfod yr amcanion asesu sy'n cael eu hasesu.
- Anogwch y defnydd o gysyllteiriau i ddatblygu cadwyni rhesymu ar gyfer cwestiynau tariff uwch (AA1.2 ac AA2)
Cysyllteiriau defnyddiol
 - Felly...
 - Mae hyn yn arwain at...
 - O ganlyniad, ...
 - Mae hyn oherwydd...
 - Gan arwain at...

Adnoddau

Mae'r wefan adnoddau digidol yn parhau i gael ei diweddaru. Rydyn ni wedi ychwanegu rhai adnoddau rhyngweithiol yn seiliedig ar ddelweddau o werslyfr Hodder TGAU Daearyddiaeth.

<https://resources.wjec.co.uk/Pages/ResourceSingle.aspx?rlid=2920&langChange=cy-GB>

Datblygiad Proffesiynol – yn dod yn fuan... Hydref 2019

Bydd ffocws y datblygiad proffesiynol yn berthnasol i addysgu lefel TGAU a TAG Daearyddiaeth:

- (i) Daearyddiaeth, Gwneud penderfyniadau – ffyrdd creadigol o fynd ati i werthuso a gwneud penderfyniadau yn yr ystafell ddosbarth daearyddiaeth.
- (ii) Gwaith maes – gwneud gwaith maes ysbrydoledig sy'n seiliedig ar leoedd. Gosod cwestiynau ymholiad da a chasglu data ystyrllon.

Cymorth pellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill neu os oes angen cymorth pellach arnoch, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni. Pob lwc i'ch holl fyfyrwyr yn arholiadau'r haf eleni.

Dymuniadau gorau gyda'r addysgu.

Paul Evan – Swyddog Pwnc – Daearyddiaeth